# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 28 Mawrth 2023 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Ellie Chard, James Elson, Karen Edwards, Huw Hilditch-Roberts, Terry Mendies, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Peter Scott

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes/Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd ac Economi (TW); Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG); Rheolwr Prosiect (PC); Rheolwr Cynllunio a Thai Strategol (AL); Prif Swyddog Cynllunio (LG); Prif Syrfëwr Prosiect Adeiledig (AF); Swyddog Arweiniol - Eiddo Corfforaethol a Stoc Dai (DL); Rheolwr Gweithrediadau Eiddo (MC), a Gweinyddwyr Pwyllgor (KEJ ac RTJ [Gweddarlledwr])

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2023.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

## 5 TERFYNU'R CONTRACT AM BRIF GONTRACTWR AR GYFER CAM 2 Y DEPO GWASTRAFF

Cyflwynodd y Cynghorydd Barry Mellor yr adroddiad am derfynu'r contract rhwng Cyngor Sir Ddinbych ac R L Davies Ltd (RLD) i RLD fod yn brif gontractwr Cam 2 y Depo Gwastraff ar Ystâd Colomendy, Dinbych.

Arweiniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi yr Aelodau drwy'r adroddiad. I grynhoi, yn eu cyfarfod diwethaf (dan yr adran materion brys), cafodd y Cabinet wybod fod RLD wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, a bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi wedi gwneud penderfyniad brys, dan adran 2.9 Cyfansoddiad y Cyngor, i derfynu'r contract rhwng y Cyngor ac RLD iddynt fod yn brif gontractwr Cam 2 y Depo Gwastraff ar Ystâd Colomendy, Dinbych. Roedd y cyfansoddiad yn caniatáu i benderfyniad dirprwyedig ar frys gael ei wneud lle na allai penderfyniad aros tan y cyfarfod cyntaf posib o'r Cabinet.

Yn ogystal ag adrodd yn ffurfiol ar y penderfyniad dirprwyedig brys hwnnw, roedd yr adroddiad hefyd yn nodi sut cafodd y contract ei ddyfarnu, gan gynnwys penderfyniad y Cabinet i ddirprwyo'r penderfyniad i ddyfarnu'r contract i'r Prif Weithredwr ar 12 Ebrill 2022, o ystyried effaith yr etholiadau lleol ac amserlenni ar gyfer dyfarnu'r contract, ynghyd â'r broses dendro a gwerthuso, gan gynnwys y gwiriadau ariannol angenrheidiol a rheoli risg. Roedd RLD wedi sgorio uchaf yn y broses dendro ac nid oedd rheswm dilys dros eu diystyru. O ystyried y risg canolig o ddefnyddio'r cwmni, roedd y contract wedi'i fonitro'n agosach ac roedd rhai o'r is-gontractwyr mwy sylweddol wedi'u talu'n uniongyrchol er mwyn lliniaru'r risg. Cyfeiriwyd hefyd at y dewisiadau ar gyfer symud y prosiect ymlaen, a chyflwyno adroddiad i'r Cabinet ym mis Mai ar y dewis a ffefrir ar gyfer cwblhau adeiladu'r prosiect. Yn y cyfamser, roedd gwaith yn parhau ar y safle ac roedd is-gontractwyr allweddol wedi'u penodi'n uniongyrchol dan reolaeth y Tîm Prosiect. Byddai'r holl gymeradwyaeth caffael angenrheidiol wedi'i roi ar waith ar gyfer y gwaith hwnnw.

Ailadroddodd y Cabinet eu tristwch fod RLD, a oedd yn fusnes lleol a hirsefydlog, wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, ac roeddent yn meddwl am y gweithwyr a phawb a oedd wedi'u heffeithio gan hyn. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, gofynnodd y Cabinet am ragor o eglurder am y pwysau o ran amser wrth ddarparu'r prosiect, yn enwedig effaith unrhyw oedi ar Gam 2 o ran cyflwyno'r prosiect a goblygiadau o ran cost. Gofynnwyd am sicrwydd hefyd o ran parhad y gwaith ar y safle yn y cyfnod interim.

Gan ymateb i'r materion hynny a chwestiynau pellach a godwyd gan Aelodau, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi a'r Rheolwr Prosiect –

- na fyddai'n bosibl cyflwyno'r gwasanaeth newydd nes bydd y depo ar agor, felly byddai unrhyw oedi wrth gwblhau'r depo yn arwain at oedi wrth gyflwyno'r gwasanaeth newydd. Ystyriwyd y gellid darparu'r depo ar amser o hyd, ac nid oedd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i oedi ei gyflwyno
- byddai unrhyw oedi wrth gyflawni'r prosiect yn arwain at oblygiadau o ran cost o ran adeiladu'r depo ei hun o ystyried y cynnydd o ran chwyddiant a'r gost weithredol i'r gwasanaeth. Roedd y system bresennol yn golygu bod angen mynd â deunydd ailgylchu cymysg i gyfleuster oddi ar y safle i'w ddidoli, am gost

gynyddol i'r Cyngor; pan fyddai'r model newydd wedi'i gyflwyno, byddai incwm yn deillio o'r ailgylchu

- yn dilyn terfynu'r contract gyda RLD, roedd y Cyngor wedi penodi is-gontractwyr allweddol yn uniongyrchol i sicrhau bod gwaith yn parhau i ddatblygu ar y safle yn y cyfnod interim er mwyn cyflawni'r rhaglen. Roedd gwiriad cyllid wedi'i gynnal ar bob un o'r is-gontractwyr ac roedd pob un wedi sgorio'n uwch na'r trothwy isaf yn y broses dendro, heb unrhyw achos i bryderu. Roedd taliadau prydlon yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i is-gontractwyr er mwyn sicrhau nad oedd problem â llif arian
- o ran dyfarnu'r contract i RLD yn dilyn y sgôr risg canolig, roedd yn dderbyniol gwneud hynny o fewn y prosesau caffael a oedd ar waith a chymerwyd camau i liniaru unrhyw risg. Roedd RLD wedi ennill y tendr yn deg heb unrhyw sail ddigonol dros beidio â dyfarnu'r contract dan y gweithdrefnau caffael. Byddai peidio â dyfarnu'r contract yn golygu y byddai angen ailddechrau'r broses gyfan gyda dull gwahanol, ac roedd pwysau o ran amser o hyd i ddarparu'r prosiect, a byddai unrhyw oedi'n arwain at bwysau ariannol i gynnal y model presennol a chostau adeiladu uwch. Gan ystyried popeth, roedd y penderfyniad yn rhesymol a chywir ar y pryd
- roedd yr effaith ariannol ar y Cyngor o ganlyniad i RLD yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn ffurfio rhan o'r asesiad o ddewisiadau a oedd yn cael ei ystyried ar gyfer cwblhau'r prosiect, roedd gwaith yn mynd rhagddo ar hyn ar hyn o bryd gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i'r Cabinet ym mis Mai gyda dewis a ffefrir a argymhellir.

Nododd y Cabinet y cymhlethdodau gyda'r prosiect ac roeddent yn falch bod gwaith yn parhau i ddatblygu yn y cyfnod interim gyda phenodi'r is-gontractwyr yn uniongyrchol. Amlygwyd buddion amgylcheddol y model gwastraff newydd a'r system newydd o ddidoli ac ailgylchu ac fe'u cefnogwyd, a nodwyd y gost gynyddol o barhau â'r system bresennol. Roedd y Cabinet yn edrych ymlaen at gael yr adroddiad dewisiadau ar gyfer datblygu'r prosiect a'r gymeradwyaeth caffael angenrheidiol gofynnol. Fe fanteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Aelod Arweiniol am eu holl waith caled.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r penderfyniad dirprwyedig brys y cyfeirir ato ym mharagraff 2.1 yr adroddiad.*

## 6 STRATEGAETH DDEWISOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD - ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cyflwynodd y Cynghorydd Win Mullen-James yr adroddiad ar Adroddiad Ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) a cheisio cefnogaeth y Cabinet ar gyfer Strategaeth a Ffefrir y CDLl, a chyflwyno'r newidiadau a argymhellir i'r Cyngor i'w cymeradwyo'n derfynol.

Roedd y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai a'r Prif Swyddog Cynllunio yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Roedd yr adroddiad eglurhaol i gyfarfod y Grŵp Cynllunio Strategol ar 23 Chwefror 2023 (Atodiad 1 yr adroddiad) yn crynhoi'r newidiadau a argymhellwyd i'r Strategaeth a Ffefrir. Roedd Adroddiad Ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir (Atodiad 2 yr adroddiad), yn nodi manylion llawn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd, yr ymatebion a ddaeth i law, a'r diwygiadau a

argymhellwyd i Strategaeth a Ffefrir y CDLl. Roedd y newidiadau arfaethedig wedi cael eu hasesu drwy'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac mae'r canlyniadau wedi llunio'r newidiadau arfaethedig terfynol.

Yn gryno, roedd newidiadau allweddol i'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys rhagor o amlygrwydd a phwysigrwydd i elfennau fel lliniaru newid hinsawdd, lleihau carbon a theithio llesol yn y weledigaeth, amcanion a pholisïau allweddol; gostyngiad o ran faint o dir glas cyflogaeth Dosbarth B newydd ddylid ei ddyrannu yn y strategaeth dwf yn dilyn adolygiad yr ymgynghorwyr o'r sylfaen dystiolaeth, a dileu Safle Strategol Bodelwyddan o'r strategaeth ofodol yn dilyn pryderon am ei ddarparu yn sgil newidiadau i gyllid y fargen dwf. Argymhellwyd bod y targed tai fforddiadwy'n cael ei gynyddu hefyd. Byddai'r targed gwirioneddol yn cael ei lywio gan yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Yn olaf, cyfeiriwyd at waith y Grŵp Cynllunio Strategol a rhoddwyd gwahoddiad agored i bob Aelod fynychu.

Cydnabu'r Cabinet bwysigrwydd datblygu gwaith ar y CDLl i sicrhau bod y Cyngor yn cael dylanwad lleol ar fathau o ddatblygiadau ar draws y sir a'u lleoliad, a'u bod yn cael cyfle i newid polisïau a dyraniadau i adlewyrchu materion a meysydd newydd fel newid hinsawdd. Croesawodd y Cabinet y newidiadau allweddol, yn enwedig y pwyslais o'r newydd ar liniaru newid hinsawdd, teithio llesol, y Gymraeg a chynyddu'r targed tai fforddiadwy. Croesawyd y mewnbwn gan Gynghorwyr, swyddogion proffesiynol, a'r ymateb da o'r ymgynghoriad cyhoeddus hefyd, a soniwyd yn benodol am waith caled y Grŵp Cynllunio Strategol. Fel aelod o'r Grŵp Cynllunio Strategol, amlygodd y Cynghorydd Peter Scott y gwaith caled a wnaed eisoes a gwaith pellach wrth symud ymlaen, a rhoddodd deyrnged i waith caled swyddogion, gan gymeradwyo'r adroddiad yn llawn.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- amlygwyd yr angen am fanylion yn y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd am fwriad y Cyngor, gan gynnwys elfennau sy'n ymwneud â newid hinsawdd a rhoddodd swyddogion sicrwydd y byddai adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno, yn gyntaf i'r Grŵp Cynllunio Strategol, ar fanylion a geiriad polisïau i gwmpasu'r materion hynny a fyddai'n rhoi cyfle i Aelodau fod yn rhan o'r gwaith hwnnw ar gam cynnar
- roedd yr adroddiad yn cyfeirio at ddarpariaeth ar gyfer lefel o dwf a gaiff ei gefnogi gan dir ar gyfer 3,775 o gartrefi newydd er mwyn bodloni gofyniad tai o 3,275 annedd, a bod y gwahaniaeth yn ymwneud â chynllun wrth gefn i sicrhau bod y 3,275 o anheddau'n cael eu darparu. Ers dechrau cyfnod y cynllun yn 2018, roedd tua 1,200 o anheddau o'r cyfanswm o 3,275 wedi'u hadeiladu eisoes, ac roedd tua 1,000 o anheddau naill ai'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd neu'n safleoedd lle'r oedd caniatâd cynllunio wedi'i roi ac a fyddai'n debygol o ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf. Felly, roedd yn debygol y byddai darpariaeth tir ar gyfer tua 1,000 o anheddau yn cael ei cheisio ar gyfer dyraniadau newydd
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Arwel Roberts at y potensial fod gan safleoedd tir llwyd penodol, a oedd wedi'u gadael heb eu cyffwrdd ers peth amser, werth uchel o ran bioamrywiaeth a chytunodd y Cynghorydd Emrys Wynne, a amlygodd bwysigrwydd diogelu'r safleoedd tir glas gorau ar gyfer amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd, a'r angen am gydbwysedd. Cafwyd trafodaeth am gydbwyso

dyheadau ar gyfer darparu tai fforddiadwy a thir cyflogaeth yn erbyn yr angen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, a chafwyd cydnabyddiaeth o'r gwaith da sydd wedi'i wneud eisoes ar hynny. Nodwyd bod y Tîm Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd a'r Tîm Cynllunio yn cydweithio'n agos. Cadarnhaodd Swyddogion fod angen cydbwyso amryw ystyriaethau allweddol wrth edrych ar ddyrannu safleoedd yn y CDLl, gan gynnwys bioamrywiaeth a gwerth tir amaethyddol. Byddai gofyniad ar safleoedd ar gyfer enillion bioamrywiaeth net hefyd wrth symud ymlaen, a oedd yn gam cadarnhaol er mwyn diogelu a gwneud gwelliannau.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau;*

*(b) argymell y Strategaeth a Ffefrir fel y'i diwygiwyd gan yr adroddiad i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol, ac*

*(c) argymell bod y Strategaeth a Ffefrir gymeradwy fel y'i diwygiwyd gan yr adroddiad yn ffurfio sail i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i'w Archwilio ar gyfer ymgynghoriad.*

**7 CYFLWYNO SYSTEM GAFFAEL DDEINAMIG AR GYFER DARPARU GRANTIAU CYFLEUSTERAU I BOBL ANABL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer datblygiad a gweithrediad System Gaffael Ddeinamig mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir y Fflint i ddarparu'r Grant Gorfodol Cyfleusterau i Bobl Anabl yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau presennol.

Roedd gofyniad statudol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu addasiadau, trwy Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl, i unigolion diamddiffyn er mwyn eu galluogi i fyw'n ddiogel ac annibynnol yn eu cartref eu hunain. Nid oedd y broses bresennol o gaffael gwaith addasu yn cyd-fynd â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau'r Cyngor ac felly roedd System Gaffael Ddeinamig wedi'i hargymell, mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir y Fflint, a fyddai'n caniatáu i'r ddau Awdurdod Lleol ddarparu Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl ar draws y ffin trwy drawstoriad da o gontractwyr cymwys. Eglurwyd y broses gaffael bresennol a'r System Gaffael Ddeinamig newydd. Roedd y System Gaffael Ddeinamig yn debyg i restr gymeradwy o gontractwyr ond roedd yn darparu mwy o hyblygrwydd ac roedd yn cael ei gweithredu fel proses gwbl electronig, a fyddai'n agored drwy gydol cyfnod dilysu'r system brynu i unrhyw gwmni sy'n bodloni'r meini prawf dethol. Y bwriad oedd darparu adroddiad pellach ar ddiwedd y broses gaffael o ran gweithredu'r System Gaffael Ddeinamig.

Cydnabu'r Cabinet fanteision y System arfaethedig a fyddai'n darparu mwy o hyblygrwydd a gwerth am arian, gyda chronfa ehangach o gontractwyr a allai wneud cais am wahanol lotiau wrth i waith fod ar gael, ac er mwyn diwallu anghenion rhai a oedd angen cyfleusterau i bobl anabl yn y ffordd orau mewn modd mwy amserol. Ymatebodd y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai a'r Prif Syrfëwr Prosiect Adeiledig i gwestiynau, gan gadarnhau bod y dyraniad cyfalaf blynyddol

wedi cynyddu i £1.5 miliwn o ystyried cost gynyddol addasiadau oherwydd pwysau chwyddiant. Roedd y grant gorfodol yn dal i fod yn £36,000 ond roedd y swm a roddwyd fel grant cyn pridiant ar yr eiddo wedi cynyddu o £5,000 i £10,000 a oedd yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i osod y rhan fwyaf o'r addasiadau canolig, fel lifftiau grisiau a rampiau, a oedd yn cyd-fynd â newidiadau Llywodraeth Cymru i brofion modd ar gyfer addasiadau ar gyfer anableddau.

Roedd yr Arweinydd yn falch o nodi bod yr archwiliad mewnol wedi nodi'r gwelliant gofynnol a chroesawodd y broses well newydd, gan longyfarch pawb a fu'n rhan o'r broses a'r gwaith caled a wnaed er mwyn galluogi addasiadau i gartrefi er budd pobl ag anableddau ac i sicrhau ansawdd bywyd gwell.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo datblygiad a gweithrediad System Gaffael Ddeinamig mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir y Fflint i ddarparu'r Grant Gorfodol Cyfleusterau i Bobl Anabl yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau presennol.*

## 8 ADNEWYDDU'R FFRAMWAITH CONTRACTWR CYNNAL A CHADW TAI GWAG

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau caffael ac ymrwymo i gontract i benodi nifer o gontractwyr i fframwaith i wneud gwaith ailwampio i eiddo domestig gwag sydd ym mherchnogaeth y Cyngor (a elwir yn dai gwag).

Rhoddwyd rhywfaint o wybodaeth gefndirol a oedd yn cynnwys dull y Cyngor o wella ansawdd eiddo gwag cyn eu hail-osod, a oedd yn effeithio ar amseroedd cwblhau a chynnydd o ran costau. Eglurodd y Rheolwr Gweithrediadau Eiddo fod y fframwaith presennol wedi'i sefydlu yn dilyn archwiliad mewnol yn 2017 ond byddai'n dod i ben ym mis Medi 2023. O ystyried ei lwyddiant, y bwriad oedd ail-dendro'r fframwaith, a mynd allan i'r farchnad eto i sicrhau gwerth gorau. Dywedwyd wrth y Cabinet y byddai darparu fframwaith yn lleihau costau ac amser o ran cynnal gwaith ar unedau tai gwag, a chynyddu incwm i'r Cyfrif Refeniw Tai wrth gynnal y safon eithriadol sydd wedi'i gosod o ran tai o ansawdd uchel ar gyfer tenantiaid tai'r Cyngor.

Cydnabu'r Cabinet yr angen i leihau costau ac amseroedd cwblhau ar gyfer eiddo gwag o ystyried y pwysau presennol o ran tai, ond roeddent hefyd yn siarad o blaid yr angen i waith priodol gael ei wneud er mwyn sicrhau bod cartrefi o safon, sy'n addas i'r diben, yn cael eu hail-osod a fyddai, yn eu tro, yn cael parch a gofal gan denantiaid, ac roedd Aelodau'n falch bod tai o safon yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth. Roedd y Cabinet hefyd yn falch o nodi'r cynnydd disgwyliedig o ran amseroedd cwblhau tai gwag fel rhan o'r fframwaith newydd a'r cyfleoedd i fusnesau lleol a masnachwyr bach yn Sir Ddinbych. O ran prynu tai'r Cyngor yn ôl, cadarnhawyd nad oedd y fframwaith ei hun ar gyfer 'prynu'n ôl' yn benodol, ond gellid defnyddio contractwyr ar y fframwaith ar gyfer gwaith gofynnol ar eiddo a brynwyd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

(a) *cymeradwyo ail-dendro'r fframwaith tai gwag, a*

(b) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhoddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2022/23 oedd £233.696 miliwn (£216.818 miliwn yn 2021/22)
- rhagwelwyd y byddai gorwariant o £2.846 miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol (gorwariant o £2.249 miliwn fis diwethaf)
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth unigol
- rhoddwyd manylion arbedion gwasanaeth a chynnydd mewn ffioedd a chostau (£0.754 miliwn)
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a phrosiectau mawr.

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r gofyniad arian cyfatebol ar gyfer rhaglen Grant Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd hefyd, ynghyd â phrosiect 'Pedair Priffordd Fawr' fel rhan o raglen Grant Ffyniant Bro De Clwyd.

Tynnodd y Pennaeth Cyllid sylw at yr elfennau canlynol yn yr adroddiad –

- roedd y cynnydd o ran gorwariant o £0.6 miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol oherwydd pwysau ychwanegol yn y Gwasanaethau Plant (roedd y rhan fwyaf o'r pwysau'n ymwneud â lleoliadau plant y rhagwelwyd y byddent yn para'n hirach nag a ragwelwyd o'r blaen) a'r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (lle'r oedd cronfeydd wrth gefn y gwasanaeth wedi'u defnyddio i liniaru'r gorwariant). Roedd dewisiadau i ariannu'r gorwariant yn cynnwys lefel sylfaenol y cronfeydd wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a'r gronfa wrth gefn lliniaru'r gyllideb; byddai argymhellion yn cael eu gwneud pan fyddai'r sefyllfa derfynol yn hysbys
- roedd cais Gorllewin Clwyd ar gyfer cyllid Ffyniant Bro a'r arian cyfatebol gofynnol wedi'i gytuno o'r blaen gan y Cabinet. Ar ôl i Lywodraeth y DU gymeradwyo'r cais, gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r gofyniad arian cyfatebol yn ffurfiol, fel a ymrwymwyd gan y Cyngor eisoes, gan ddod i £1,038,108. Roedd rhaglen Ffyniant Bro De Clwyd a'r cyllid gofynnol wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor eisoes gan y Cabinet. Ar ôl i'r Bwrdd Cyllideb adolygu'r achos busnes ar gyfer prosiect 'Pedair Priffordd Fawr', argymhellwyd bod y Cabinet yn cymeradwyo'r prosiect, a oedd yn fwy na £1 miliwn. Roedd egwyddor y ddau gais wedi'i chymeradwyo eisoes ac roedd y ddau achos busnes wedi'u hadolygu a'u cefnogi gan y Bwrdd Cyllideb. Byddai'r Grŵp Craffu Cyfalaf newydd yn cynnal adolygiadau pellach o achosion busnes.

Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod ef ac Aelodau Rhuthun wedi cwrdd â David Jones, AS Gorllewin Clwyd, i drafod materion llywodraethu a gwariant i ddarparu prosiectau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gill German at elfen o'r adroddiad a oedd yn ymwneud â'r Gwasanaethau Addysg a Phlant, gan bwysleisio'r angen uchel yn y Gwasanaethau Plant a bod amcanestyniadau'n dangos y byddai'r angen yn parhau. Soniodd am adborth gan y gwasanaeth ac ysgolion a'i phrofiad uniongyrchol ei hun o'r effaith ar ôl y pandemig a'r cynnydd o ran materion iechyd meddwl, gydag effaith anghymesur ar blant o gefndiroedd incwm isel. Er bod pwysau amlwg o ran y gyllideb, roedd gan y Gwasanaethau Plant rôl hanfodol o ran delio â'r materion hynny a chefnogi cydweithwyr iechyd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*

*(b) cymeradwyo gofynion arian cyfatebol ar gyfer rhaglen Grant Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd, fel y nodir yn adran 6.8 ac Atodiad 5 yr adroddiad, ac*

*(c) cymeradwyo prosiect 'Pedair Priffordd Fawr' fel rhan o raglen Grant Ffyniant Bro De Clwyd fel y nodir yn adran 6.9 ac Atodiad 6 yr adroddiad.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet i'w hystyried, a nododd yr aelodau'r diwygiadau canlynol –

- Cam 2 y Depo Gwastraff yng Ngholomendy, Dinbych – symudwyd o fis Ebrill i fis Mai
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru - (Datgan Diddordeb) – ychwanegwyd at fis Ebrill
- Fframwaith Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru, 3ydd iteriad – ychwanegwyd at fis Mai
- Premiwm Ail Gartrefi a Chartrefi Gwag Hirdymor – ychwanegwyd at fis Mai a mis Gorffennaf
- Strategaeth y Gymraeg – ychwanegwyd at fis Mehefin

Cyfeiriodd yr Arweinydd at broses datblygu'r prosiectau ar gyfer rhaglen ariannu Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd a chytunwyd i drafod y trefniadau hynny yn sesiwn Briffio'r Cabinet. Roedd y Cynghorydd Emrys Wynne yn awyddus i egluro'r broses a'r rhai a oedd yn rhan ohoni er mwyn sicrhau bod y prosiectau'n cael eu darparu mewn modd effeithlon ac effeithiol.

***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet*.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am.